OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 194 (Cy. 45)

# PLEIDIAU GWLEIDYDDOL, CYMRU

## Gorchymyn Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau'r Senedd) 2020 (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2021

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu 25 Chwefror 2021 fel y diwrnod y daw Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau'r Senedd) 2020 i rym ("y Cod").

Lluniodd y Comisiwn Etholiadol y Cod yn unol â pharagraff 3(1) o Atodlen 8 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 ("Deddf 2000") ac mae Gweinidogion Cymru wedi cymeradwyo'r Cod drafft, a osodwyd gerbron y Senedd ar 18 Rhagfyr 2020.

Mae'r Cod wedi ei ddyroddi gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 7(a) o Atodlen 8 i Ddeddf 2000 a chaiff y Cod ei gyhoeddi gan y Comisiwn Etholiadol o dan baragraff 7 o Atodlen 8 i Ddeddf 2000.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2021 No. 194 (W. 45)

# POLITICAL PARTIES, WALES

## The Political Parties Campaign Expenditure (Senedd Elections) Code of Practice 2020 (Appointed Day) (Wales) Order 2021

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order appoints 25 February 2021 as the day on which the Political Parties Campaign Expenditure (Senedd Elections) Code of Practice 2020 comes into force ("the Code").

The Electoral Commission prepared the Code in accordance with paragraph 3(1) of Schedule 8 of the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000 ("the 2000 Act") and the Welsh Ministers have approved the draft Code, which was laid before the Senedd on the 18 December 2020.

The Code is issued by the Welsh Ministers under paragraph 7(a) of Schedule 8 to the 2000 Act and the Code will be published by the Electoral Commission under paragraph 7 of Schedule 8 to the 2000 Act.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 194 (Cy. 45)

# PLEIDIAU GWLEIDYDDOL, CYMRU

## Gorchymyn Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau'r Senedd) 2020 (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2021

*Gwnaed* *24 Chwefror 2021*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 3 o Atodlen 8 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000(**1**) ("Deddf 2000"), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn(**2**).

Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi llunio Cod Ymarfer drafft ac yn unol â pharagraff 3(2) o Atodlen 8 i Ddeddf 2000 wedi ei gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo ganddynt.

Mae Gweinidogion Cymru wedi cymeradwyo'r Cod Ymarfer drafft ac yn unol â pharagraff 3(4) o Atodlen 8 i Ddeddf 2000, gosodwyd drafft o God Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau'r Senedd) 2020 gerbron y Senedd ar 18 Rhagfyr 2020.

Yn unol â pharagraff 3(6) o Atodlen 8 i Ddeddf 2000, o fewn cyfnod o 40 niwrnod, ni phenderfynodd y Senedd beidio â chymeradwyo Cod Ymarfer drafft Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau'r Senedd) 2020, a dyroddwyd y cod ar ffurf y drafft.

(**1**) 2000 p. 41.
(**2**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, o ran Cymru, i Weinidogion Cymru gan Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018 (O.S. 2018/644).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2021 No. 194 (W. 45)

# POLITICAL PARTIES, WALES

## The Political Parties Campaign Expenditure (Senedd Elections) Code of Practice 2020 (Appointed Day) (Wales) Order 2021

*Made* *24 February 2021*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by paragraph 3 of Schedule 8 to the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000(**1**) ("the 2000 Act"), make the following Order(**2**).

The Electoral Commission have prepared a draft Code of Practice and in accordance with paragraph 3(2) of Schedule 8 to the 2000 Act have submitted it to the Welsh Ministers for approval.

The Welsh Ministers have approved the draft Code of Practice and in accordance with paragraph 3(4) of Schedule 8 to the 2000 Act, a draft of the Political Parties Campaign Expenditure (Senedd Elections) Code of Practice 2020 was laid before the Senedd on 18 December 2020.

In accordance with paragraph 3(6) of Schedule 8 to the 2000 Act, within a period of 40 days the Senedd did not resolve not to approve the draft Political Parties Campaign Expenditure (Senedd Elections) Code of Practice 2020, and the code was issued in the form of the draft.

(**1**) 2000 c. 41.
(**2**) The Powers of the Secretary of State were transferred, in relation to Wales, to the Welsh Ministers by the Welsh Ministers (Transfer of Functions) Order 2018 (S.1. 2018/644).

**Enwi a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau'r Senedd) 2020 (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2021.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Cod Ymarfer" yw Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau'r Senedd) 2020, y gosodwyd drafft ohono gerbron y Senedd ar 18 Rhagfyr 2020.

**Y Diwrnod Penodedig**

**2.** Y diwrnod penodedig i'r Cod Ymarfer ddod i rym yw 25 Chwefror 2021.

**Title and interpretation**

**1.**—(1) The title of this Order is the Political Parties Campaign Expenditure (Senedd Elections) Code of Practice 2020 (Appointed Day) (Wales) Order 2021.

(2) In this Order, "the Code of Practice" means the Political Parties Campaign Expenditure (Senedd Elections) Code of Practice 2020, a draft of which was laid before the Senedd on 18 December 2020.

**Appointed Day**

**2.** The day appointed for the coming into force of the Code of Practice is 25 February 2021.

*Julie James*

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru
24 Chwefror 2021

Minister for Housing and Local Government, one of the Welsh Ministers
24 February 2021

©Ⓗ Hawlfraint y Goron 2021

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2021

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£4.90

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2021/194

ISBN 978-0-348-20752-1